IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 6 EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Murphy a/ac Taylor |

5 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

6 : CAIS AM AMRYWIAD AR DRWYDDED SAFLE - TRAMSHED

Ymgeisydd: Mr Dan Ickowitz-Seidler - Cydberchennog y Tramshed
Mr Paddy Whur - Cyfreithwyr WoodsWhur sy'n cynrychioli'r ymgeisydd.
Mr Benjamin Newby – Cyfarwyddwr Gweithrediadau MJR

Awdurdodau Cyfrifol: Tim Davies, Swyddog Trwyddedu, Heddlu De Cymru
Y Sargant Kevin Jones, Heddlu De Cymru

Unigolion Eraill: Y Cynghorydd Ashley Lister, Aelod Ward dros Grangetown.

Mae cais am amrywiad ar Drwydded Safle – Grant, wedi'i dderbyn gan Alchemy Tramshed Ltd mewn perthynas â'r Tramshed, Pendyris Street, Grangetown, Caerdydd, CF11 6QP.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Diwygio'r ardal drwyddedig yn unol â'r cynlluniau wedi'u cyflwyno

(2) Estyn oriau cynnal gweithgareddau trwyddedadwy ar 20 achlysur y flwyddyn tan 03:00, y rhoddir gwybod i'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol amdanynt 21 diwrnod cyn pob un ohonynt gyda'r safle'n cau 30 munud ar ôl hynny.

(3) Ychwanegu amodau mewn perthynas â throsedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus (fel y nodir yn Adran M y ffurflen gais)

Cafodd sylwadau eu derbyn mewn perthynas â'r cais ac atodwyd copïau ohonynt i'r adroddiad.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol:

Dywedodd Mr Tim Davies wrth yr is-bwyllgor fod y cais yn ymwneud ag amrywio'r drwydded gyfredol o ran estyn yr oriau tan 03:00 ar 20 achlysur y flwyddyn, yn ogystal â 30 munud i orffen diodydd, gan roi rhybudd o flaen llaw o 21 diwrnod o'r achlysuron i Heddlu De Cymru.

Dywedodd Mr Davies fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r cais ar sail Atal Trosedd ac Anhrefn, Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelu Diogelwch y Cyhoedd.

Amlinellodd y Sarjant Kevin Jones ffotograffau a chynllun o'r safle a'r ardal, gan dynnu sylw at y groesfan i gerddwyr, a safle preswyl agos.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar ddigwyddiadau'r heddlu wedi'u cofnodi mewn perthynas â'r safle, gan nodi i sawl digwyddiad ddigwydd yn yr hyn y maent yn ei ystyried yn ddigwyddiadau 'risg uchel' megis cyngherddau cerddoriaeth fyw gan artistiaid penodol.

Esboniodd Mr Davies iddynt ymgysylltu â'r safle pan glywon nhw fod disgwyl i 'J Hus' berfformio yno, gofynnon nhw fod y gyngerdd yn peidio â chael ei chynnal ond fe'i cafodd ei chynnal. Credwyd bod y Tîm Cymorth Tiriogaethol (TCT) yn briodol i blismona'r gyngerdd a chafodd un ymosodiad ei adrodd y noson honno. Esboniodd Mr Davies fod problem wedi bod gyda gwydr yn cael ei adael y tu allan pan oedd y ciw yn y safle. Dywedodd Mr Davies fod ôl-drafodaeth wedi'i chynnal ar ôl y gyngerdd a daeth yn hysbys na chafodd unrhyw wiriadau eu gwneud ar yr artist.

Dywedodd Mr Davies wrth yr Aelodau fod disgwyl i gyngerdd arall gan 'Yungen' ddigwydd, a chredodd eto fod y TCT yn briodol i blismona'r digwyddiad. Ar yr achlysur hwn, cadwodd ddyn gan y staff diogelwch am geisio mynd i mewn i'r safle gyda chyllell. Roedd hefyd problem gyda dyn ymosodol a gafodd ei arestio am fod wedi meddwi ac anhrefnus.

Cyfeiriodd Mr Davies at gyngerdd 'Dappy' a dywedodd na chafodd gwiriad ar yr artist ei wneud ac er na chafodd ei ystyried yn gyngerdd risg uchel, roedd angen i'r heddlu ymyrryd gan ddigwyddodd ffeit.

Cyfeiriodd Mr Davies at gyngerdd 'Fredo', oedd wedi'i phlismona gan y TCT, 2 swyddog trwyddedu a thîm plismona cymdogaethau. Dywedodd Mr Davies mai merched rhwng 14-18 oed oedd y rhan fwyaf o'r gynulleidfa hon. Ar yr achlysur hwn, gwelodd swyddogion bobl anawdurdodedig yn gwerthu tocynnau, tystiolaeth o yfed ar y stryd a nifer o ferched ifanc oedd wedi meddwi roedd angen gofalu amdanynt nes i'w rhieni eu casglu. Dywedodd Mr Davies y cafodd pobl, wrth fynd i mewn, eu patio'n unig ac ni ofynnwyd iddynt wacau eu pocedi, ac y caniatawyd iddynt fynd i mewn gyda bagiau ac ymbaréls ac ni chafodd ffyn eu defnyddio. Credodd Mr Davies na chafodd y ciw o 350 o bobl y tu allan ei reoli ac na wnaethpwyd dim gan staff y safle nes y gofynnwyd iddynt wneud felly gan swyddogion trwyddedu.

Dywedodd Mr Davies y gwelwyd tystiolaeth o boteli wedi'u torri, Cynhwysion Ocsid Nitraidd, malwyr Canabis a bagiau wedi'u selio â chlipiau a ddefnyddir ar gyfer cyffuriau ar ôl i'r ciw fyndi mewn i'r safle. Cafwyd hefyd broblemau gyda thocynnau ffug a gwrthodwyd mynediad i 10 o bobl.

Dywedodd Mr Davies mai'r prif bryder oedd bod nifer mawr o bobl yn gadael ar yr un adeg, bod cynnydd yn swm y traffig ac nad yw pobl yn cydymffurfio â'r groesfan i gerddwyr, ar ôl digwyddiadau o'r fath. Cafodd ffyrdd eu cau ac roedd swyddogion yn gweithio ar y groesfan i gerddwyr am resymau diogelwch. Ar yr achlysur hwn, cafodd 1 ymosodiad ac 1 ymosodiad rhywiol eu hadrodd. Roedd pryderon gan Mr Davies y byddai pobl yn yfed am hirach ac y byddai'r problemau'n cael eu gwaethygu, pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Credodd Mr Davies y dylai bod 24 o aelodau staff diogelwch yn hytrach na 18. Esboniodd fod problemau blaenorol wedi bod gydag ansawdd y TCC ond roedd hyn bellach wedi'i datrys.

Roedd copïau o'r llyfr digwyddiadau wedi'u rhoi i'r Aelodau yn ogystal ag ystadegau trosedd ac anhrefn.

Rhoddwyd enghreifftiau i'r Aelodau o fideos TCC a Chamerâu Corff o ddigwyddiadau amrywiol yn y safle.

Cyfeiriodd Mr Davies at Bolisi Datganiad Trwyddedu mewn perthynas ag ardaloedd preswyl ac atal niwsans cyhoeddus. Dywedodd Mr Davies wrth yr is-bwyllgor fod yr ymgeisydd wedi cytuno i atal gweithgareddau trwyddedadwy y tu allan i'r oriau 9pm i 9am ond byddai'r ardaloedd awyr agored yn dal i fod yn ardaloedd ysmygu, felly byddai'r ardaloedd hynny'n creu sŵn.

Dywedodd Mr Davies nad yw'r safle yn safle problemus o gwbl, ond mae problemau gyda throsedd ac anhrefn ac oriau hirach i yfed alcohol. Dywedodd y gall gymryd tua 45 munud i glirio'r safle a'r ardal ar ôl y gyngerdd a byddai gwneud hyn am 3am yn tarfu at drigolion lleol, ond roedd yn gofyn bod y cais yn cael ei wrthod ar sail Atal Trosedd ac Anhrefn, Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelu Diogelwch y Cyhoedd.

Sylwadau Unigolion Eraill:

Atseiniodd y Cynghorydd Lister y pryderon am swm y bobl sy'n gadael y lleoliad gan ddweud bod y pryderon hynny wedi'u mynegi gan drigolion.

Dywedodd y Cynghorydd Lister ei fod wedi cyfarfod â'r ymgeisydd i drafod y problemau ynghylch pobl yn gadael y lleoliad. Roeddent wedi trafod y posibilrwydd o ganiatáu i bobl adael trwy ardal arall i leihau'r rhain a chredodd y Cynghorydd Lister y dylid treialu hyn gyda'r oriau cyfredol yn gyntaf.

Sylwadau'r Ymgeisydd:

Dywedodd Mr Whur eu bod wedi rhoi gwybod i'r Heddlu fod y cais hwn yn mynd i gael ei wneud. Ychwanegodd ei fod yn lleoliad aml-ddefnydd ac nad yw cyngherddau cerddoriaeth fyw yn rhan fawr o'r busnes, mae'r lleoliad ar gyfer priodasau, ioga, dawns, sinema, nosau clwb, defnydd cymunedol a cherddoriaeth fyw. Eglurodd Mr Whur nad yw'r cais i estyn oriau ar gyfer digwyddiadau cerddorol ond ar gyfer y nosau clwb a arweinir gan DJ yn unig, gan ychwanegu bod y lleoliad wedi'i seinglosio i'r safon uchaf, yn llawn ystyrlon i bobl anabl gyda bar caffi o ansawdd ac ardal awyr agored gwych.

Dywedodd Mr Whur fod y cais yn ddeublyg. Roedd y rhan gyntaf yn ymwneud â'r ardal awyr agored ar gyfer digwyddiadau yn ystod y dydd a'r noswaith, roeddent yn cytuno â phawb oedd yn ymwneud â hyn a dywedodd y byddai ychwanegu mantais i'r amcanion trwyddedu a pheidio ag effeithio arnynt.

Esboniodd Mr Whur fod artistiaid wedi chwarae yn y lleoliad a hyd at gyngerdd 'Grime', nid oedd yr Heddlu wedi cael dim pryderon. Ychwanegodd y cynhaliwyd 90 o gyngherddau cerddoriaeth fyw yn 2016, 144 yn 2017 a 42 yn 2018 hyd yn hyn,

mae hyn yn cyfateb i 120,000 o bobl yn mynd trwy'r drysau ar gyfer cyngherddau cerddoriaeth fyw.

Roedd y lleoliad wedi cynnal 34 nos glwb wedi'u harwain gan DJ hyd yn hyn, gan fod DJ's amrywiol yn chwaraeon, mae pobl yn cyrraedd ac yn gadael yn raddol, yn wahanol i ddigwyddiadau cerddorol byw. Nid oes dim ciwiau, mae angen cael tocynnau ar eu cyfer, mae DJ's cenedlaethol a rhyngwladol o ansawdd yn chwarae ynddynt a hyd yn hyn maent wedi gorffen am 01:00 gyda'r bar yn cau am 00:30. Nid yw'r digwyddiadau hyn wedi cael unrhyw cwynion hyd yn hyn.

Dywedodd wrth yr Aelodau bod MJR yn gwmni cenedlaethol, mae ganddo leoliad yn Leamington Spa sydd hefyd mewn ardal breswyl, mae hyn yn gweithredu tan 03:00 ac nid yw wedi cael unrhyw gwynion.

Dywedodd Mr Whur nad oes llawer o amodau wedi'u hatodi at y drwydded gyfredol, nid yw wedi bod yn amod i gadw llyfrau digwyddiadau ond nid ydynt yn eu cadw. Pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, byddai 12 amod wedi'u hatodi ato. Mae'r lleoliad wedi gwella ei TCC, mae gan staff y drws Gamerâu Corff, mae'r Heddlu wedi gofyn bod nifer y staff drws sy'n gwisgo camerâu corff ar gymhareb o 1:2, mae'r ymgeisydd wedi awgrymu bod 8 yn cael eu defnyddio. Yr amod sy'n ymwneud â staff drws wedi'u cofrestru gydag ADD a'r gymhareb 1:150 – ceir mwy o staff na hyn yn rheolaidd pan gaiff digwyddiadau eu hasesu o ran risgiau a phan fo nifer y staff drws yn cynyddu i 19.

Dywedodd Mr Whur eu bod wedi cael y cyfle i gyfarfod ag Aelodau Ward lleol a'u bod wedi cytuno y byddai mwy o ymgysylltu â thrigolion a chynghorwyr lleol i edrych ar unrhyw broblemau, ni waeth y penderfyniad sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r cais. Byddai hysbyseb ar dudalen Facebook Grangetown i'r gymuned ddefnyddio'r lleoliad. Byddent yn cynnig defnydd am ddim ar gyfer sawl digwyddiad cymunedol ac yn gweithio ynddynt am ddim pe baent yn ennill mwy o refeniw gan oriau hirach.

Nododd Mr Whur mai'r brif broblem oedd pobl yn gadael y lleoliad. Amlinellodd Mr Whur gynllun o'r lleoliad i'r Aelodau gan nodi 2 man gadael posibl, man yng nghefn y lleoliad lle y gall tacsi yn stopio a throi (maes parcio i staff a man biniau ar hyn o bryd), byddai marsialiaid yn y man hwn a gallai pobl aros am eu tacsi oddi ar y stryd.

Gan gyfeirio at ddigwyddiadau'r Heddlu, esboniodd Mr Whur ei bod yn gyfartal â 2 ddigwyddiad o 90 o ddigwyddiadau cerddorol byw yn yr amserlen 7 mis cyntaf a 10 digwyddiad o 144 o ddigwyddiadau cerddorol byw yn yr ail amserlen 7 mis, sy'n golygu ei fod yn lleoliad sy'n perfformio'n dda'n gyffredinol. Ailadroddodd Mr Whur nad yw'r cynnig i estyn oriau ar gyfer lleoliadau cerddorol byw a dim ond ar gyfer nosau clwb a arweinir gan DJ.

Dywedodd Mr Whur fod yfed o flaen llaw yn digwydd mewn llawer o leoliadau, mae staff yn glanhau a glanweithio'r ardal pan fo'r ciw wedi mynd, gwneir hyn hefyd ar ddiwedd y nos yn ôl yr arfer ac nid yn unig pan fo'r Heddlu yn gofyn iddynt wneud. Nododd Mr Whur fod pryderon gan yr Heddlu am Gyngherddau Grime a'r ciwio, esboniodd Mr Whur y byddent yn dechrau gweithredu ciw neidr mewnol a fyddai'n dod â 200 o bobl sy'n ciwio oddi ar y stryd.

Esboniodd Mr Whur ei bod yn bwysig i'w gleient hyrwyddo'r amodau trwyddedu ac ymgysylltu â'r gymuned, byddent yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, yn asesu

digwyddiadau o ran risgiau a byddai staff y drws yn gwisgo camerâu corff. Roeddent am i'r lleoliad gael ei ddefnyddio'n fwy yn ystod y dydd ac yn fwy gan y gymuned. Maent eisiau oriau hirach ar gyfer digwyddiadau penodol a'r cyfle i brofi y gellir gwneud hyn heb unrhyw broblemau, maent yn hapus tynnu'n ôl yr oriau y gofynnwyd amdanynt i 02:30 (cau'r bar) a 03:00 (cau'r lleoliad).

Gan ymateb i gwestiynau dywedodd Mr Newby fod lle i tua 800-900 o bobl yn y nosau clwb a arweinir gan DJ ac mai lleoliad i bethau amrywiol y mae'r lleoliad, nid clwb nos.

Dywedodd Mr Newby bod y cais i estyn oriau ar gyfer pob gweithgaredd trwyddedadwy yn gamgymeriad, nid oes ei angen ar gyfer digwyddiadau cerddorol byw. Yna eglurodd Mr Whur y byddai digwyddiadau DJ yn cael eu dosbarthu fel cerddoriaeth fyw felly byddai ei angen o hyd.

Dywedodd Mr Newby y byddai ardal chwilio ar flaen y system giwio neidr fewnol o hyd.

Mewn perthynas â chwestiynau am seddi yn ystod nosau clwb, esboniodd Mr Newby y byddai soffas ar y mesanîn, yn y bar coctels lan y grisiau, yn yr ystafell aros, ac ardal ymlacio gyda seddi yn y sinema, y llawr dawnsio fyddai'r brif ardal.

Gan ymateb i gwestiynau am yr ardal tacsis arfaethedig yng nghefn y lleoliad, esboniodd Mr Newby na fyddai maes parcio i staff ar y diwrnod y byddai'n cael ei defnyddio, na fyddai bysus teithio gan mai digwyddiadau DJ yn unig fyddai'r digwyddiadau ac y byddai'r ardal finiau'n cael ei hadleoli.

Dywedodd Mr Newby, o ran ymgysylltu â'r gymuned, eu bod wedi cyfarfod â thrigolion pan agoron nhw'r bwyty, siaradon nhw â Chynghorwyr lleol yn ogystal â'u e-bostio, gwnaethon nhw gydnabod y gellir gwella ymgysylltu â'r gymuned ac amlinellon nhw ynghynt sut maent yn bwriadu gwneud hynny. Ychwanegodd fod perthynas cyfeillgar wedi bod gan nad oes unrhyw gwynion wedi'u derbyn. Gofynnwyd i Mr Newby, pe bai rhywfaint o'r cais yn cael ei gytuno, a fyddai'r amodau'n ddibynnol, a dywedodd byddent.

Crynhoi

Awdurdodau Cyfrifol

Dywedodd Mr Davies, wedi cael tystiolaeth o ran ystadegau ar ddigwyddiadau'r heddlu, ei fod yn credu y byddai cynnydd mewn oriau'n arwain at gynnydd yn yr alcohol a yfir ac ar nosau clwb byddai'r lleoliad yn glwb nos/sefydliad yfed yn y bôn.

Ychwanegodd nad yw pobl yn gadael yn raddol yn ei brofiad ef, byddai pobl yn gadael trwy ardal breswyl lle nad yw unrhyw ffyrdd wedi'u cau. Roedd pryderon ganddo am sŵn y bobl sy'n gadael a'r tarfu ar drigolion lleol. Ychwanegodd nad oes unrhyw sôn wedi bod o ar ba nos o'r wythnos y byddai'r nosau clwb, gallent fod ar nos yn ystod yr wythnos o bosibl.

Roedd pryderon gan Mr Davies na fyddai seddi wedi'u gosod ac y gellid codi seddi a'u taflu. Ychwanegodd fod gofyn i'r heddlu ddod i gynorthwyo gyda phob

digwyddiad a gofnodwyd. I gloi dywedodd fod Heddlu De Cymru yn gofyn bod y cais yn cael ei wrthod yn llwyr.

<u>Ymgeisydd</u>

Cyfeiriodd Mr Whur at 2 ran y cais, roedd y rhan gyntaf yn ymwneud â’r cynnydd yn yr ardal awyr agored, ac roedd cytundeb wedi’i wneud rhwng yr holl bobl gysylltiedig gan gynnwys yr amod mewn perthynas â pheidio â chynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn yr awyr agored rhwng 21:00 a 09:00.

Roedd yr ail ran yn ymwneud ag estyn oriau agor ar 20 achlysur y flwyddyn. Dywedodd Mr Whur nad clwb nos fydda’r lleoliad, nid yw’n lleoliad y mae pobl yn mynd iddo ar ôl tafarnau amrywiol yng Nghanol y Ddinas. Ailadroddodd nad yw unrhyw o’r 34 o nosau clwb hyd yn hyn wedi derbyn unrhyw gwynion, dim ond nifer bach o ddigwyddiadau sydd wedi derbyn cwynion.

Mae’r ymgeisydd am drio systemau ciwio a gadael gwahanol i leihau unrhyw bryderon, maent am ymgysylltu’n fwy gyda’r gymuned a chynyddu defnydd o’r lleoliad yn ystod y dydd (gan gynnwys defnydd cymunedol). Ychwanegodd y byddai hyn yn cael ei wneud ni waeth y penderfyniad ar y cais.

Mae tystiolaeth heddlu wedi’i chael ac ar sail y dystiolaeth honno, ni fyddai’n ddigon i wrthod y cais.

Dywedodd Mr Whur nad yw’r lleoliad mewn parth effaith gronnol ac felly roedd yn rhaid i’r is-bwyllgor fod yn fodlon, ar sail y dystiolaeth, y byddai’r cynnydd mewn oriau’n ychwanegu at unrhyw broblemau. Nid oedd y trothwy Trosedd ac Anhrefn wedi’i fwrw.

I gloi, dywedodd Mr Whur fod y cais hwn yn un cadarn gan weithredwr cyfrifol ac anogodd yr is-bwyllgor i gymeradwyo’r cais.

PENDERFYNWYD:

Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr Is-bwyllgor yn CYMERADWYO’r cais â’r amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i fodloni’r amcanion trwyddedu ac i ddiwygio’r cais i estyn oriau agor i 02:30am.

7 : CAIS I GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - CHICKEN.COM

Ymgeisydd: Mr Zaidi– Perchennog Chicken.com, 13 Stryd Y Castell, Caerdydd, CF10 1BS.

Nicola Jordan – Cyfreithwyr Hugh James, yn cynrychioli’r ymgeisydd.

Awdurdodau Cyfrifol: Mr Tony Bowley Swyddog Trwyddedu Heddlu De Cymru
Rhys Morgan Swyddog Trwyddedu Cyngor Caerdydd

Unigolion Eraill: Y Cynghorydd Weaver, yr Aelod Ward dros Cathays
Y Cynghorydd Mackie, yr Aelod Ward dros Cathays

William Taylor - Revolution Bars Group

Mae Cais am Drwydded Safle – Grant wedi'i dderbyn gan Mr Zaidi ar gyfer Chicken.com, 13 Stryd Y Castell, Caerdydd, CF10 1BS.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Ar ddydd Sul ac ar ddydd Llun: 10:00 tan 02:00
Ar ddydd Mawrth: 10:00 tan 04:00
Ar ddydd Mercher ac ar ddydd Iau: 10:00 tan 02:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 10:00 tan 02:00
Ar ddyddiau Sul cyn Gwyliau Banc: 10:00 tan 03:00
Nos Galan: 10:00 tan 05:00 ar Ddydd Calan
Ar ddiwrnodau y mae Heddlu De Cymru yn eu dynodi fel diwrnodau digwyddiad mawr yng Nghanol y Ddinas ac ardaloedd ym Mae Caerdydd: 10:00 tan 04:00

(3) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

Ar ddydd Sul ac ar ddydd Llun: 23:00 tan 02:00
Ar ddydd Mawrth: 23:00 tan 04:00
Ar ddydd Mercher ac ar ddydd Iau: 23:00 tan 02:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 23:00 tan 02:00
Ar ddyddiau Sul cyn Gwyliau Banc: 23:00 tan 03:00
Nos Galan: 23:00 tan 05:00 ar Ddydd Calan
Ar ddiwrnodau y mae Heddlu De Cymru yn eu dynodi fel diwrnodau digwyddiad mawr yng Nghanol y Ddinas ac ardaloedd ym Mae Caerdydd: 23:00 tan 04:00

Cafodd sylwadau eu derbyn mewn perthynas â'r cais ac atodwyd copïau ohonynt i'r adroddiad.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol:

Cyflwynodd Mr Bowley wrthwynebiadau ar ran Heddlu De Cymru ar sail amcanion trwyddedadwy; Atal Trosedd ac Anhrefn, Niwsans Cyhoeddus a Diogelu Plant rhag niwed, gan nodi bod y safle yn y parth polisi effaith gronnol, bod swm anghyfartal o alcohol sy'n gysylltiedig â throsedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus yn yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o drosedd ac anhrefn yn digwydd gyda'r hwyrnos, mae bwytai bwyd brys yn gyfrifol am swm mawr o drosedd ac anhrefn yng Nghanol y Ddinas.

Dywedodd Mr Bowley wrth yr is-bwyllgor fod hysbysiad ffurfiol wedi'i gyflwyno a phe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, y byddai amodau wedi'u hatodi ato mewn perthynas â gosod TCC, staff y drws yn gwisgo camerâu corff , 2 staff drws

cofrestredig ADD o 23:00 i gau bob dydd, dim bwyta allanol, dim cwsmeriaid dan 16 oed ar ôl 23:00 oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn cyfrifol, cadw llyfr digwyddiadau. Dywedodd Mr Bowley fod yr holl amodau hyn wedi'u cytuno gan yr ymgeisydd heblaw am un sy'n ymwneud â nifer y staff ar y drws, credodd yr ymgeisydd y byddai un yn ddigon ar ddiwrnodau penodol.

Rhoddodd Mr Bowley i'r is-bwyllgor ystadegau'r heddlu sy'n ymwneud â digwyddiadau yn yr ardal agos o safle sy'n debyg i Chicken.com, gan ddweud nad oes unrhyw ystadegau sy'n ymwneud yn benodol â'r safle gan ei fod yn newydd. Credodd Mr Bowley ei bod yn anochel y byddai effaith ar drosedd ac anhrefn yn yr ardaloedd pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Cyfeiriodd Mr Bowley at ddatganiad y cwnstabl Gunstone a nododd i'r safle weini bwyd twym ar ôl 23:00 heb fod wedi'i drwyddedu i wneud felly, a chredodd y gwneir sioe o unrhyw oriau a gymeradwyir yn y cais a dywedodd wrth yr is-bwyllgor fod Heddlu De Cymru yn eu hannog i wrthod y cais.

Dywedodd Rhys Morgan wrth yr is-bwyllgor fod y cais yn dod o dan y Polisi Effaith Gronnol y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu, rhaid i unrhyw gais i'w ystyried dan y polisi brofi na fydd yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu a dyletswydd yr ymgeisydd yw cyflawni'r holl ofynion i leihau unrhyw effeithiau negyddol.  Credodd Mr Morgan nad yw'r cais yn gwneud hyn, nid yw'n cais eithriadol, mae'n siop bwyd brys felly mae'n dod o dan gategori 'Coch' y Polisi a dywedodd Mr Morgan wrth yr is-bwyllgor fod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais.

<u>Sylwadau Unigolion Eraill:</u>

Dywedodd y Cynghorydd Mackie wrth yr is-bwyllgor ei bod yn gwrthwynebu'r cais fel Aelod ward ar sail Atal Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus.  Credodd y Cynghorydd Mackie y byddai'r safle yn annog pobl i ddod allan o'r clybiau nos i Stryd Y Castell ac y byddai chynnydd mewn ymddygiad meddwol.

Nododd y Cynghorydd Mackie fod Revolution sydd drws nesaf yn cyflogi 21 aelod o staff ar y drws i sicrhau bod pobl sy'n gadael ei safle yn mynd yn syth i dacsis, credodd y Cynghorydd Mackie na fyddai hyn yn digwydd pe bai siop bwyd brys drws nesaf, byddent yn aros yn yr ardal.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y gwrthwynebiadau cryf gan yr Heddlu a chyfeiriodd at yr ystadegau a ddarparwyd, a chredodd y byddai'r safle hwn yn ychwanegu at y rhain.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie fod pobl yn meddwl  nad yw'r safle yn briodol ar gyfer yr ardal benodol honno yn y Ddinas, yn agos at y gwestai a'r Castell lle y byddai llawer o ymwelwyr yn aros, gan ychwanegu bod gwrthwynebiadau cryf wedi bod gan drigolion lleol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Weaver at y Polisi Effaith Gronnol, gan ailadrodd yr hyn sydd wedi'i amlinellu a chan ychwanegu y gallai hefyd fod yno problem gyda sbwriel oedd yn fater polisi mawr.

Ychwanegodd y Cynghorydd Weaver hefyd y byddai mwy o bwysau ar yr Heddlu, y byddai angen iddynt fynd i'r ardal, nad ydynt yn mynd iddynt ar hyn o bryd, a fyddai'n lleihau plismona mewn ardaloedd megis Stryd Caroline a Heol Eglwys Fair.

Dywedodd y Cynghorydd Weaver fod y Polisi'n glir iawn ar yr hyn a ganiateir a chredodd fod y cais hwn yn groes i hynny, nid oes ganddo fesurau lleihau a dywedodd wrth yr is-bwyllgor ei fod yn gwrthwynebu'r cais yn gryf.

Dywedodd Mr William Taylor wrth yr is-bwyllgor ei fod yn Gysylltai Risg i Revolution Bars Group, dywedodd eu bod 21 o staff yn gweithio ar y drws yn eu safle, mwy pan fo digwyddiad mawr.  Dywedodd eu bod yn sicrhau bod pobl yn gadael eu safle'n ddiogel, mynd yn syth i dacsis yn ddiogel a bod popeth yn cael ei logio a'i gofnodi ar eu hochr nhw.  Nododd nad oes llawer o siopau bwyd brys yn yr ardal benodol honno felly nid yw pobl yn hongian o gwmpas ar ôl gadael y clwb nos.  Roedd pryderon ganddo, pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, y byddai pobl yn aros yn yr ardal ac y byddai angen plismona hyn yn fwy, ac y byddai'n golygu mwy o sŵn yn tarfu ar y bobl sy'n aros yn y gwestai cyfagos.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd:</u>

Dywedodd Ms Nicola Jordan wrth yr is-bwyllgor nad oes unrhyw bwriad o effeithio'n negyddol ar unrhyw broblemau yn yr ardaloedd, credodd, gan nad oes unrhyw siopau bwyd brys eraill yn yr ardal, y gallai un yma yn helpu i fynd â phobl i ffwrdd o ardaloedd mwy prysur megis Stryd Caroline, a allai helpu i leihau'r baich.

Dywedodd Ms Jordan fod ei chleient wedi'i chyfarwyddo i ddiwygio'r oriau y gofynnwyd amdanynt yn y cais i 02:00 ddydd Mawrth, dydd Gwener a dydd Sadwrn, Diwrnodau Digwyddiad Mawr a'r dydd Sul cyn Gwyliau Banc, gan ychwanegu y byddai hyn yn gwaredu unrhyw broblem sy'n ymwneud â phobl yn gadael Revolution. Ychwanegodd eu bod yn hapus ychwanegu arwyddion yn gofyn i bobl adael yn dawel, ac roedd hi wedi creu amodau ar gyfer y mater gyda sbwriel.

Dywedodd Ms Jordan fod ei chleient yn derbyn bod amryfusedd yn ddiweddar pan gafodd bwyd ei weini ar ôl 23:00, dywedodd fod hyn yn gamgymeriad gan aelod o staff sydd wedi rhoi datganiad, pan sylweddolodd fod camgymeriad wedi bod ceisiodd ddychwelyd yr archebion bwyd, cydweithredodd gyda'r Heddlu o ran rhoi fideo TCC.

<u>Crynhoi</u>

<u>Awdurdodau Cyfrifol</u>

Credodd Mr Bowley y byddai cymeradwyo'r cais yn anochel yn cynyddu trosedd ac anhrefn yn yr ardal lle nad oes cynllun Heddlu ar hyn o bryd a dim adnoddau i weithredu un.

Nid yw meddwl Mr Bowley wedi'i dawelu gan yr hyn a glywodd heddiw neu am yr esboniad o ran masnachu ar ôl oriau, credodd na fyddai'r amodau wedi'u cynnig yn bodloni'r amodau trwydded ac felly gwrthwynebodd y cais yn gryf.

Credodd Mr Morgan mai lleihau’r baich ar un ardal yw'r union beth y mae’r Polisi Effaith Gronnol yn ceisio ei osgoi, byddai angen i’r cais fod yn un eithriadol i gael ei gymeradwyo ac nid yw’r cais hwn yn eithriadol, felly gwrthwynebodd y cais.

Unigolion Eraill

Dywedodd y Cynghorydd Mackie nad yw wedi’i hargyhoeddi gan yr hyn y mae wedi'i glywed a chredodd y byddai cymeradwyo'r cais yn gwaethygu problemau amrywiol yn yr ardal, felly gwrthwynebodd y cais.

Dywedodd Mr Taylor fod gan Revolutions weithdrefnau a pholisïau ar waith i sicrhau bod pobl yn cyrraedd cartref yn ddiogel, teimlodd y byddai cymeradwyo’r cais hwn yn effeithio ar y rheiny ac felly gwrthwynebodd y cais.

Ymgeisydd

Dywedodd Mr Zaidi y byddai'r safle yn creu 5 swydd gan ychwanegu at economi'r ardal. Credodd fod yr holl bryderon wedi bod yn ymwneud ag alcohol ac nad oedd dim bwriad ganddo i werthu alcohol. Dywedodd ei fod wedi gosod TCC er nad oed angen ac iddo gydweithredu gyda'r Heddlu yn ystod y digwyddiad masnachu ar ôl oriau. Dywedodd ei fod yn gyfrifol ac yn rhan o’r gymuned a’i fod am wneud busnes yn yr ardal.

PENDERFYNWYD:

Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, yn GWRTHOD y cais.